***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2156 (Cy.180)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Awst 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Awst 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Awst 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Awst 2009 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau

**2.** Diwygir Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 12.

**3.** Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "Cyngor Ymchwil" ("*Research Council*"), yn lle "Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth", rhodder "Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg"(**4**).

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159)(C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2008/3170 (Cy.283).

(**4**) Cafodd y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg ei ffurfio ar lun cyngor ymchwil drwy uno'r Cyngor ar gyfer Labordy Canolog y Cynghorau Ymchwil a'r Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth.

**4.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 3(9), yn lle "1 Medi 2008" rhodder "1 Medi 2009".

**5.** Yn rheoliad 5(2) yn lle "paragraff 6 neu 7" rhodder "paragraff 7 neu 8".

**6.** Yn rheoliad 6(16)(h), yn lle "1 Medi 2007", rhodder "1 Medi 2009".

**7.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 10(2)(b), yn lle "21(6) neu 21(8)" rhodder "21(3) neu 21(7)".

**8.** Yn rheoliad 60(11) yn lle "pharagraff (4)" rhodder "pharagraff (10)".

**9.** Yn rheoliad 60(12) yn lle "baragraff (4)" rhodder "baragraff (10)".

**10.** Yn rheoliad 80(2) yn lle "paragraff 6 neu 7" rhodder "paragraff 7 neu 8".

**11.** Yn nhestun Saesneg paragraff 9(1)(a)(ii) yn Atodlen 1, hepgorer "a" ar ôl "a family member of".

**12.** Yn nhestun Cymraeg paragraff 5(1)(a) yn Atodlen 6, yn lle "£39,780" rhodder "£39,793".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Awst 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/3170) (Cy.283) ("Rheoliadau 2008") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wallau technegol a gwallau teipograffyddol yn Rheoliadau 2008.